Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Rhaglan

Heol yr Orsaf
Rhaglan
Sir Fynwy
NP15 2EP

Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Rhaglan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Rhaglan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Fynwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 165 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 141 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 4.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | *3% |

| | |
|---|---|
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/11/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/02/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae'r pennaeth a staff yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Rhaglan yn darparu amgylchedd gwresog a chroesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal. Mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion ac yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch a goddefgarwch tuag at ei gilydd.

Mae grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar newid i ddwyn manteision ar y cyd i'r ysgol a'r gymuned ehangach. Maent yn cynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol â grwpiau a busnesau lleol i gynhyrchu cymorth a chyllid, ac mae'r ymgysylltu hwn yn darparu profiadau gweithio gwerthfawr a bywyd go iawn ar gyfer disgyblion.

Mae arweinwyr a staff yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill i ddarparu cymorth buddiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn helpu llawer o ddisgyblion ag ADY i wneud cynnydd da.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a digidol yn dda. Maent yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau mathemategol ond nid ydynt yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymhwyso'u medrau trwy weithgareddau datrys problemau a rhesymu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a diwylliannol. Mae disgyblion yn ennill dealltwriaeth gynyddol o amrywiaeth o ffydd a diwylliannau, ac mae hyn yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr empathig a pharchus sy'n gwerthfawrogi credoau a thraddodiadau pobl eraill.

At ei gilydd, mae'r addysgu yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu dilys sy'n ennyn ymgysylltiad disgyblion ac yn eu cefnogi i feithrin eu medrau yn gynyddol. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn lefel yr her mewn gwersi, sy'n cyfyngu ar ddatblygiad disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau systematig i olrhain a monitro'r cynnydd a wna disgyblion. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau monitro yn briodol i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i gefnogi strategaethau gwella'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn cefnogi gwaith arweinwyr yn dda. Maent yn gweithio'n agos gydag arweinwyr i reoli presenoldeb disgyblion yn effeithiol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Mireinio addysgu i sicrhau her gyson a phriodol sy'n datblygu medrau disgyblion wrth ddysgu'n annibynnol

A2 Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau datrys problemau mathemategol a rhesymu, mewn cyd-destunau bywyd go iawn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Rhaglan yn darparu amgylchedd gwresog a chroesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn barod i ddysgu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos ystyriaeth a charedigrwydd tuag at ei gilydd. Caiff cariad at ddysgu ar y cyd ei hyrwyddo ymhlith staff a disgyblion. Mae'r ymdeimlad hwn o frwdfrydedd ac ymrwymiad yn adlewyrchu gweledigaeth yr ysgol ac yn helpu meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae'r pennaeth yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedus â staff a disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd anogol lle mae disgyblion ac oedolion yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi ac yn derbyn gofal. Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion a staff. Mae athrawon yn creu mannau wedi eu cynllunio'n ofalus sy'n darparu mannau diogel i ddisgyblion fyfyrio a rheoleiddio eu teimladau a'u hemosiynau.

Mae staff yn nodi a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol. Maent yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i gynllunio ymyriadau a chymorth targedig. Mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant arbenigol i alluogi staff i gyflwyno rhaglenni teilwredig sy'n diwallu anghenion unigol disgyblion ag ADY. Mae athrawon yn alinio'u gwaith yn ofalus i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd ystyrlon i drosglwyddo a chymhwyso'r medrau a ddatblygwyd trwy ymyriadau i'w dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae arweinwyr yn adolygu a monitro effaith y gwaith hwn yn rheolaidd, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da.

Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda staff i ddylunio cwricwlwm sy'n adlewyrchu anghenion a diddordebau disgyblion, a'r cyd-destun lleol. Mae cwricwlwm 'Ysbrydoli' ('Inspire') yr ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau disgyblion ac yn addasu themâu a thestunau i adlewyrchu digwyddiadau cymunedol a materion byd-eang. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio gyda busnesau a sefydliadau lleol. Mae hyn yn creu profiadau dysgu dilys sy'n cyfoethogi disgyblion ac yn rhoi diben i'w dysgu. Mae dull yr ysgol o gynllunio'r cwricwlwm yn parhau i esblygu. Mae gwaith partneriaeth diweddar gydag ysgolion eraill yn cryfhau dealltwriaeth staff o ddilyniant ac yn dechrau gwella dilyniant arfaethedig medrau ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da dros gyfnod yn datblygu eu medrau llythrennedd. Ar draws yr ysgol, mae medrau llafaredd disgyblion yn datblygu'n dda, ac maent yn defnyddio'r rhain yn llwyddiannus at ystod eang o ddibenion ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn gweithredu dull systematig ar gyfer addysgu darllen, ac mae hyn yn cefnogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd da. Mae athrawon yn creu cysylltiadau pwrpasol rhwng medrau llafaredd a darllen disgyblion, ac mae hyn yn helpu cryfhau medrau ysgrifennu disgyblion.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg yn gynyddol. Mae llawer o ddisgyblion iau yn mwynhau dysgu trwy ganeuon. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion hŷn yn adeiladu ar eu geirfa a'u patrymau brawddeg i ofyn ac ateb cwestiynau cynyddol gymhleth gyda hyder cynyddol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn datblygu eu medrau mathemategol a rhifedd. Mae athrawon yn darparu ystod o weithgareddau addas sy'n helpu disgyblion i feithrin dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol allweddol. O roi'r cyfle iddynt, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn dangos dealltwriaeth dda o rif ac yn defnyddio hyn yn hyderus i ddatrys cyfrifiadau yn y pen ac yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion adeiladu ar eu medrau rhifedd a'u cymhwyso'n bwrpasol mewn tasgau datrys problemau a rhesymu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein ac mae disgyblion hŷn yn dechrau deall defnydd cadarnhaol a negyddol o ddeallusrwydd artiffisial. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion hŷn gymhwyso'u gwybodaeth wyddonol i siarad am gynaliadwyedd a materion byd-eang. Trwy ddigwyddiadau thema, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol ac entrepreneuraidd yn dda. Maent yn dechrau gwneud cysylltiadau yn eu dysgu, gan gysylltu gwybodaeth â byd gwaith a chyd-destunau byd go iawn.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr trwy gydol y flwyddyn i ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a diwylliannol disgyblion. Mae cysylltiadau cryf ag eglwysi lleol yn galluogi disgyblion, teuluoedd ac aelodau o'r gymuned i ddathlu digwyddiadau allweddol gyda'i gilydd. Mae ymweliadau ag ystod o adeiladau crefyddol yn helpu datblygu dealltwriaeth disgyblion ac yn hyrwyddo agweddau parchus tuag at wahanol ffydd.

### Ciplun: Grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yn dylanwadu ar newid yn y gymuned.

Mae grwpiau arweinyddiaeth disgyblion, sy'n cael eu hadnabod fel 'Ysgogwyr Newid Rhaglan' ('Raglan Change Makers'), yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae disgyblion o wahanol grwpiau oedran yn ymgymryd â rolau arwain pwrpasol. Maent yn gweithio gyda staff a sefydliadau lleol i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, fel diogelwch ar y ffordd a lleihau unigrwydd yn y gymuned. Mae disgyblion yn gweithio gyda'r gymuned i gasglu cefnogaeth ar gyfer eu prosiectau, ac maent yn aml yn llwyddiannus o ran sicrhau grantiau a chyllid. Mae hyn yn eu galluogi i gyflawni eu nodau ac yn dwyn manteision ar y cyd i'r ysgol a'r gymuned leol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ennill ymdeimlad cryf o falchder a chyfrifoldeb, ac maent yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y gall eu llais a'u gweithredoedd ei chael ar bobl eraill.

Mae athrawon yn gofyn am farn disgyblion am beth hoffent ei ddysgu, a sut. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn hyrwyddo mwynhad o wersi. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion gydweithio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau gwrando effeithiol, yn cyfathrebu'n glir ac yn dangos parch wrth weithio gyda disgyblion eraill. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n ymestyn dysgu disgyblion. Maent yn defnyddio holi yn effeithiol i ddyfnhau dealltwriaeth. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn ymateb yn dda i adborth gwerthfawr i wneud gwelliannau i'w gwaith. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn lefel yr her mewn gwersi, a cheir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion gymryd perchnogaeth o'u dysgu a datblygu medrau dysgu'n annibynnol.

Mae arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd datblygu diwylliant dysgu ymhlith staff ar bob lefel. Trwy adeiladu ar y perthnasoedd cadarnhaol ac atebolrwydd ar y cyd am safonau, mae arweinwyr yn datblygu cyfleoedd hyfforddi wedi'u hystyried yn ofalus sy'n adlewyrchu anghenion a diddordebau staff, a blaenoriaethau'r ysgol. Mae cyfleoedd hyfforddi gwerthfawr yn helpu cymell staff ac ennyn eu hymgysylltiad. Maent yn cynorthwyo staff i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu datblygiad proffesiynol. O ganlyniad, mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi eu cymell i gryfhau eu gwybodaeth, eu medrau a'u harbenigedd. Mae hyn yn cryfhau ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu systemau strwythuredig i fonitro safonau mewn addysgu a dysgu. Maent yn casglu ystod eang o dystiolaeth, yn cynnwys trwy deithiau dysgu, craffu ar lyfrau a gwybodaeth am asesiadau, i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn defnyddio'r dystiolaeth hon, ochr yn ochr â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, i lywio gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn nodi ystod eang o flaenoriaethau ysgol ac mae ganddynt systemau priodol ar waith i adolygu cynnydd.

Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau statudol ac mae ganddynt werthfawrogiad clir o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ysgol a'i gwaith. Mae llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hunanwerthuso i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o arfer ystafell ddosbarth. Maent yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon, ochr yn ochr â'r wybodaeth a gyflwynwyd iddynt mewn adroddiadau a chyfarfodydd, i ddarparu her a chymorth priodol i arweinwyr.

Mae arweinwyr yn gweithio gyda llywodraethwyr i olrhain a monitro presenoldeb disgyblion. Mae cyfraddau presenoldeb yn gyson dda. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro cyllid yr ysgol yn effeithiol ac yn sicrhau bod cyllid grant yn cael ei ddefnyddio'n briodol i gefnogi anghenion disgyblion. Maent yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ystyried yn ofalus ochr yn ochr â blaenoriaethau strategol yr ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Mae arweinwyr yn gweithio gyda llywodraethwyr a'r awdurdod lleol i reoli cyllid yr ysgol yn ofalus. Mae llawer o gyllid dros ben wedi bod yn yr ysgol, er bod hyn yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac amcangyfrifir y bydd yn cyd-fynd â gwariant a argymhellir y flwyddyn nesaf. Mae gan arweinwyr gynlluniau ar waith sy'n dyrannu cyllid dros ben i gynnal costau staffio (ac mae hyn yn helpu darparu cymorth ychwanegol gan oedolion i ddiwallu anghenion cynyddol disgyblion ag ADY).

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2026